OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1511

# Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Chwefror 2021.

(3) Mae'r darpariaethau yn—

(a) rheoliadau 4(1), 4(2), 4(4) ac 11 yn cael effaith o 5 Rhagfyr 2005 ymlaen;

(b) rheoliad 12 yn cael effaith o 1 Ebrill 2006 ymlaen;

(c) rheoliad 7 yn cael effaith o 6 Ebrill 2006 ymlaen;

(d) rheoliad 3 yn cael effaith o 1 Ebrill 2007 ymlaen;

(e) rheoliadau 5 ac 8 yn cael effaith o 1 Rhagfyr 2009 ymlaen;

(f) rheoliad 4(3) yn cael effaith o 13 Mawrth 2014 ymlaen;

(g) rheoliad 14 yn cael effaith o 1 Ebrill 2015 ymlaen([1]).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

([1]) Mae pŵer i roi effaith ôl-weithredol wedi ei roi gan adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, adran 34(3) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a chan adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.